**EITEM AGENDA RHIF: 8**

# CYNGOR SIR Y FFLINT

**ADRODDIAD I** **CYDBWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD:** **3 GORFFENNAF 2009**

**ADRODDIAD GAN:** **ARWEINYDD RHEOLI PROSIECT**

**TESTUN:** **ADOLYGU AMSERLEN Y PROSIECT**

1.1. Mae llawer o weithgareddau cydamserol ac olynol ynghlwm wrth brosiect cymhleth fel Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru ac mae'r rhain yn gyd-ddibynnol ar ddigwyddiadau o fewn ac oddi allan i'r prosiect, ac yn cael eu dylanwadu ganddynt. Gan hynny, mae'n anodd rhagfynegi pryd y bydd yr ateb a brynir yn dechrau derbyn ein gwastraff gweddilliol.

1.2. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o'r newidynnau a'r elfennau cyd-ddibynnol a fydd yn effeithio ar amserlen y prosiect. Yna bydd yn amlinellu, ar lefel uchel, y prif weithgareddau yr ymgymerir â nhw a faint o amser y gellid ei gymryd i'w cwblhau.

1.3. Daw i'r casgliad mai'r dyddiad tebygol y bydd yr ateb yn dechrau derbyn ein gwastraff gweddilliol fydd Awst 2016, o bosibl.

## 2. Y CEFNDIR

2.1. Mae llawer o ffactorau'n dylanwadu ar y rheswm dros ragfynegi pryd y bydd y prosiect hwn yn gallu darparu ffordd o drin ein gwastraff gweddilliol. Dyma dri ohonynt:

- Sicrhau bod ein hawdurdodau'n cyrraedd targedau uchelgeisiol Ewrop ar gyfer gwastraff gan osgoi gorfod talu dirwyon Cynllun Lwfans Tirlenwi.
- Sicrhau bod gan ein hawdurdodau ateb i'r broblem o drin ein gwastraff gweddilliol pan fydd ein safleoedd tirlenwi'n llawn.
- Rhagfynegi proffil y gyllideb ar gyfer y prosiect, ac ar gyfer costau trin gwastraff cysylltiedig.

2.2. Mae angen pennu dau ddyddiad pwysig:

- Y dyddiad y mae'r prosiect hwn yn debygol o gael y maen i'r wal: **Dyddiad A**
- Y dyddiad cynharaf y mae unrhyw un o'r pum awdurdod yn rhagweld y bydd yn wynebu naill ai dirwyon Cynllun Lwfans Tirlenwi neu brinder lle mewn safleoedd tirlenwi. **Dyddiad B**

2.3. Y dull gorau o ddangos faint o amser y bydd ei angen i gwblhau prosiect yw drwy gyfrwng siart Gantt. Mae'r siart hon yn rhestru prif weithgareddau'r prosiect ac mae gan bob gweithgaredd far ar galendr sy'n

dangos pryd y bydd y gweithgaredd yn digwydd. Drwy ddadansoddi pa weithgareddau sy'n ddibynnol ar gwblhau gweithgareddau eraill, mae modd blaenoriaethu a rhestru'r holl weithgareddau i benderfynu ar hyd y prosiect yn gyffredinol. Mae hyn yn rhoi'r amserlen fyrraf bosibl ar gyfer cwblhau'r prosiect, sef y Llwybr Critigol, ac yn rhagfynegi **Dyddiad A**.

2.4. Mae swyddogion gwastraff ym mhob awdurdod yn monitro'n rheolaidd sawl tunnell o wastraff a gesglir ac maent yn penodi ymgynghorwyr arbenigol i ddefnyddio'r data i ragfynegi pryd y bydd yr awdurdodau'n debygol o wynebu dirwyon. Unwaith eto, nid yw'r rhagfynegiadau hyn yn hawdd ac mae newidynnau fel newidiadau demograffig a newidiadau yn y sefyllfa ariannol, a llwyddiant prosiectau eraill o ran ailgylchu a thrin gwastraff, yn dylanwadu arnynt. Bydd swyddogion gwastraff hefyd yn monitro faint o le sydd mewn safleoedd tirlenwi a faint o ddefnydd a wneir ohonynt. Y rhagfynegiadau hyn fydd yn pennu **Dyddiad B.**

2.5. Mewn byd delfrydol, byddai'r prosiect yn cael ei drefnu fel bod **Dyddiad A** yn gynharach na **Dyddiad B**. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae **Dyddiad A** yn debygol o fod yn gynharach na **Dyddiad B**. Mae hyn yn dangos y bydd angen i'r Bartneriaeth gynnal arfarniad o ddewisiadau i benderfynu ar gamau i'w cymryd i gael hyd i ateb dros dro i'r broblem o ddelio â'i gwastraff gweddilliol.

## 3. YSTYRIAETHAU

3.1. Datblygwyd siart Gantt dangosol ar gyfer y prosiect gan ddefnyddio profiad y gorffennol a'r amcangyfrif gorau i benderfynu ar hyd rhai o'r gweithgareddau. Dyma restr o rai o'r newidynnau a allai effeithio ar amserlen y prosiect:

| **Newidyn** | **Canlyniad** |
|---|---|
| Pan gaiff yr Achos Busnes ei gyhoeddi, gall un neu ragor o bartneriaid benderfynu nad yw'r ateb y cytunwyd arno'n fforddiadwy | Mae'n bosibl y bydd rhai o'r partneriaid, neu'r holl bartneriaid, yn gadael y prosiect. Bydd yn rhaid i'r Partner hwnnw ddechrau eto ac, os yw hwnnw'n bartner tyngedfennol, mae'n bosibl y bydd yn rhaid dod â'r prosiect i ben yn gynamserol a byddai angen i'r AALl chwilio am ateb arall. |
| Ni cheir y gymeradwyaeth angenrheidiol gan bob awdurdod, Llywodraeth y Cynulliad, neu'r Cydbwyllgor etc neu mae'r gymeradwyaeth yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl | Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu gohirio nes y ceir cymeradwyaeth |
| Cynllun terfynol y weithdrefn gaffael, sef y Drafodaeth Gystadleuol: nifer y camau; nifer y cynigion sy'n symud ymlaen i'r | Gall achosi oedi yng ngham Trafodaeth Gystadleuol |

| | |
|---|---|
| gwahanol gamau; pa mor wahanol yw'r cynigion | |
| Caniatâd cynllunio | Mae'n anodd gwybod pa mor hir y bydd yn rhaid aros i gael caniatâd cynllunio ac i ddelio ag unrhyw her gyfreithiol bosibl ar ôl cael caniatâd. Gellid gwrthod caniatâd cynllunio ar safle'r cynigydd a ffefrir. |
| Cyllid | Gall gymryd mwy o amser i'r cynigydd llwyddiannus sicrhau'r cyllid ar gyfer y gwaith os bydd cyflwr y farchnad yn gwaethygu |
| Adeiladu: a fydd yr holl elfennau allweddol yn y gwaith yn cael eu cwblhau yn ôl y galw. A fydd yna gam adeiladu? Pa broblemau fydd yn codi ar y safle yn ystod y gwaith adeiladu? A fydd y diwydiant adeiladu'n gallu ymdopi? | Mwy o oedi - oni phenderfynir ar gynllun i gludo'r gwastraff gweddilliol i safle sy'n bod eisoes. |
| Newid blaenoriaethau, polisïau, technoleg a/neu gyfansoddiad y llif gwastraff | Gall olygu nad yw'n bosibl bwrw ymlaen â'r prosiect |

3.2. Bydd Cyfarwyddwr a Rheolwr y Prosiect yn cynllunio i leihau effaith y newidynnau hyn ac yn lleihau unrhyw elfennau a allai amharu ar y prosiect. Mae'n anodd iawn, fodd bynnag, proffwydo'r dyfodol.

3.3. Ar ôl ystyried yr holl newidynnau, dyma'r rhagfynegiadau gorau <u>ar hyn o bryd</u> ar gyfer rhai o gamau allweddol y prosiect:

| | |
|---|---|
| Cwblhau'r Achos Busnes Amlinellol | Tachwedd 2009 |
| Cyhoeddi'r OJEU (hysbysiad caffael) | Mawrth 2010 |
| Cau'r Drafodaeth Gystadleuol | Mai 2011 |
| Llofnodi'r cytundeb | Tachwedd 2011 |
| Y gwaith yn weithredol | Awst 2016 |

3.4. Sylwch mai dangosol yw'r dyddiadau hyn a chânt eu cywiro wrth i'r Tîm gael rhagor o wybodaeth.

## 4. ARGYMHELLION

4.1. Dylai'r Cydbwyllgor a'r Bwrdd Prosiect ddirprwyo awdurdod i'r Tîm Prosiect i barhau i fonitro'r amserlen ac i gynllunio gweithgareddau er mwyn ceisio cadw mor agos at yr amserlen â phosib.

4.2. Dylid hysbysu'r Cydbwyllgor a'r Bwrdd Prosiect o'r amserlen yn eu cyfarfodydd rheolaidd.

4.3. Dylai'r Cydbwyllgor a'r Bwrdd Prosiect awdurdodi Cyfarwyddwr y Prosiect i ddatblygu llif gwaith ar gyfer y prosiect i gael hyd i Ateb Dros Dro ac adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor a'r Bwrdd Prosiect.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Amherthnasol

**6. EFFAITH GWRTH-DLODI**

6.1. Dim

**7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL**

**7.1.** Amherthnasol

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

**8.1.** Amherthnasol

**9. GOBLYGIADAU O RAN PERSONÉL**

**9.1.** Amherthnasol

**10. YMGYNGHORI'N OFYNNOL**

**10.1.** Amherthnasol

**11. YMGYNGHORI A WNAED**

**11.1.** Amherthnasol

**DEDDF RHYDDID GWYBODAETH LLYWODRAETH LEOL 1985**

**Dogfennau cefndir**

Dim

**Swyddog Cyswllt:** Enid Roberts, Conwy